

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

2/7/15

Presennol: Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, John C Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

Ymddiheuriadau: Carol Rowlands

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i Tony Parry i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o Gyngor Tref Y Bala. Llongyfarchwyd Dorothi Evans ar ei hordinhad i'r Eglwys a diolchwyd i Eifion Roberts am gytuno i gynrychioli'r Cyngor yn y seremoni o dorri'r dywarchen ar gyfer yr ysgol newydd. Dywedodd y Maer ei bod wedi cael gwahoddiad i gychwyn dwy ras nofio ac un ras beicio.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 2il, 2016.
5. **Materion gweithredu'r Clerc:** Mae trefniadau mewn llaw i gynnal cyfarfod gyda chynrychiolydd o'r Bermo parthed camerâu cylch cyfyng. Mae posibilrwydd y bydd Diffibriliwr yn cael ei osod yn yr ysgol newydd. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i geisio cael manylion y baneri Croeso gan y Grŵp a archebasant nhw i gychwyn. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y Domen ar hyn o bryd. Mae gwaith wedi ei wneud i'r tarmac wrth fynedfa'r Feddygfa. Cytunwyd i drefnu cyfarfod am y Treiathlon ar gyfer Hydref (ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn) a thrafod safbwynt a chwestiynau yng nghyfarfod Medi. Cytunwyd i bwysu eto am ateb i broblem biniau gorlawn ar y stryd ac wrth y llyn ar adeg Gŵyl Banc.
6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Mynychodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan cyfarfod o'r Panel i drafod defnydd cymunedol o'r campws newydd. Nid ydyw wedi cael ymateb i'r cais am 10% o ffioedd parcio'r dref i ddod yn ôl i'r Bala. Bydd biniau sbwriel yn cael eu gosod ar gyfer ardal y cae pêl droed.
7. **Adroddiad Cynrychiolwyr Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** derbyniwyd adroddiad manwl gan Eluned Jones a Dorothi Evans o gyfarfod mis Mai pryd yr oedd prif weithredwr Un Llais Cymru yn bresennol. Mynegodd ef cymaint y mae cymdeithas yn elwa o gyfraniad gwirfoddol Cynghorwyr ac y dilid ofalu nad ydyw unrhyw ail drefnu o Lywodraeth leol yn arwain at gollir'r adnodd gwerthfawr hwn. Mae lleihad yn yr incwm i Gynhorau Sir yn

golygu disgwyl i Gyngorau Tref a Chymuned ysgwyddo fwy o'r baich. Gall hynny olygu ychwanegu at y Praesept, ond mae'n bwysig ymgynghori gyda'r gymuned am flaenoriaethau'r bobl cyn cymryd mwy o gyfrifoldebau. Rhaid cofio hefyd y bydd goblygiadau cyllidol, yswiriant, ac lechyd a Diogelwch. Mae gwirfoddolwyr, yn arbennig rhai ifanc, yn brin ac anogodd mwy o gydweithio gyda mudiadau fel y Ffermwyr Ifanc a'r Aelwydydd. Diolchodd y Maer am yr adroddiad manwl.

8. Materion Cynllunio

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i waith dymchwel ac adeiladu ar gampws Ysgol y Berwyn
- ii. Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/53/544 sef adeiladu estyniad ochr i 7 Cae Gadlas

9. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Monitro gwariant 2016-17: cymharwyd y gwariant yn erbyn y Gyllideb ar gyfer 2016-17 a chael y sefyllfa yn un dderbyniol iawn.
- iii. Cytunwyd i roi hysbyseb yn Y Cyfnod yn gwahodd tendrau am gyflenwi Coed Nadolig i'w gosod ar adeiladau'r Stryd Fawr. Pris eu gosod??
- iv. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

10. Gohebiaeth

Gwynedd:

- i. Ystyriwyd gohebiaeth am gyflenwi biniau halen a chytunwyd i ohirio gwneud penderfyniad ar hyn o bryd hyd nes derbynnir mwy o fanylion.
- ii. Ystyriwyd cynnig i bartneriaethu i gadw toiledau ar agor; cytunwyd i fynegi diddordeb mewn partneriaethu ar gyfer 2017-18 gan fynegi bod angen mwy o drafodaeth am fanylion unrhyw bartneriaethu a sut mae sicrhau incwm ar gyfer y prosiect. Cytunwyd i fynegi diddordeb, heb glymu'r Cyngor Tref, mewn rheoli'r Toiledau yn y dyfodol.
- iii. Ystyriwyd Ymchwiliad gan y gwasanaeth Gorfodaeth Stryd a chytunwyd bod angen cryfhau'r gwasanaeth. Mynegwyd peth consyrn am or-awydd cwmni masnachol i gyrraedd targedau.
- iv. Ystyriwyd cais gan "Arloesi Gwynedd" am arweiniad i 3 chymuned greu mentrau cymunedol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a chytunwyd ei fod yn fater mwy perthnasol i Bartneriaeth Penllyn.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am doriadau i'r gyllideb cynnal Llwybrau Cyhoeddus.

Un Llais Cymru:

Derbyniwyd drafft newydd o'r Rheoliadau Ariannol a chytunwyd i'r Pwyllgor Cyllid roi sylw iddo.

Eraill:

- i. Derbyniwyd Adroddiad yr Ombwdsman.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am grwpiau trafod hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.
- iii. Darllenwyd llythyr Cyngor Cymuned Llanuwchllyn am y feddygfa a chytunwyd gyda'r awgrym i gyhoeddi'r llythyr yn y Wasg. Cytunwyd i gynnwys cyfeiriad at gyfraniad ardderchog y fferylllydd tuag at y gofal iechyd lleol.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am gynhadledd yr SLCC yn Llandudno 14/9/16 a diolchwyd i'r Clerc am fod yn barod i fynychu.
- v. Cytunwyd i gefnogi cynnwys astudiaeth "Effaith Ieithyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn" wrth i'r Arolygwr Annibynnol archwilio'r cynllun uchod.

11. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod diwedd y mis. Cytunwyd i fynegi'r angen i dacluso tu allan i'r Henblas wrth y cyfarfod hwnnw.

12. Materion lleol y Cyngorwyr Tref - Cytunodd y Clerc i dynnu sylw Swyddogion Cyngor Gwynedd at y materion canlynol:

- i. nid ydyw'r gweithwyr yn sicrhau fod y biniau masnachol yn Heol Tegid yn cael eu rhoi nôl yn ddiogel ar ôl eu gwagio.
- ii. mae arwydd busnes yn Heol Tegid yn cael ei osod tu allan i Siop Ria ar y Stryd Fawr ac mae'n rhwystr i gadeiriau olwyn.
- iii. mae baneri yn cael eu gosod ar balmentydd yn Heol Tegid sydd yn beryglus i drafnidiaeth a cherddwyr; gwelwyd un yn gorwedd ar draws y fynedfa i Heol y Domen.
- iv. mae cŵn yn baeddu yn ardal chwarae plant Cysgod y Coleg.
- v. derbyniwyd cwynion eto am gyflwr glendid Toiledau'r Grîn.

Cytunodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan i ymweld ag ardal Cysgod y Coleg a Blaenddol gyda J C Williams i roi ystyriaeth i ddiogelwch plant ar gefn beic a phobl mewn cadair olwyn, yr angen am sedd neu fainc, baw ci a threfniadau torri gwair yn ardal chwarae'r plant.

Gofynnwyd i'r Clerc anfon at Cake Crew i holi a ydynt yn fodlon bod eu mesurau lechyd a Diogelwch y cyhoedd a'r staff yn ddigonol o gwmpas ardal y ffatri. Tynnir sylw hefyd at drafferthion parcio sydd yn gallu bod yn rhwystr rhag mynediad at y biniau ail-gylchu.

Cytunodd y Clerc i anfon at reolwr Rheilffordd Llyn Tegid i fynegi dymuniad ymwelwyr am arwydd yn ymyl maes parcio'r Clwb Rygbi at yr orsaf yng nghyd ag amserlen y trenau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8/9/16

Amser gorffen: 9.15